# GORCHYMYN CYDGYFNERTHU SIR GAERFYRDDIN (LLANELLI) (CYFYNGIADAU AR AROS A MANNAU PARCIO AR Y STRYD) (AMRYWIAD RHIF 44) 2025

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel “y Cyngor”), drwy arfer y pwerau a roddir gan Adrannau 1(1), 2(1) i 2(3), 4, 32(1), 35 a 124 o, a Rhan IV o Atodlen 9 i, Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, fel y’i diwygiwyd (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel “Deddf 1984”), Deddf Rheoli Traffig 2004 a phob pŵer galluogi arall, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf 1984, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Mae “Gorchymyn Cydgrynhoi Sir Caerfyrddin (Llanelli) (Cyfyngiadau Ar Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) 2004” (“y Gorchymyn Cydgrynhoi”), fel y’i hamrywiwyd wedyn, trwy hyn, yn cael ei addasu fel petai’r cynlluniau rhif cyfatebol sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn yn cael eu gosod yn lle’r cynlluniau sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn Cydgrynhoi a Gorchymyn Cydgyfnerthu Sir Gaerfyrddin (Llanelli) (Cyfyngu Ar Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) (Amrywiad Rhif 38) 2020, sydd â'r effaith o osod, ar hyd ac ochrau’r ffyrdd a nodwyd ac am y cyfnodau a nodwyd yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn, gwaharddiad ar barcio ar unrhyw adeg, ac eithrio cerbydau pobl anabl sydd wedi’u parcio yn y safle a bennir yn yr Atodlen honno ac yn arddangos bathodyn person anabl, disg parcio neu drwydded arall dilys a gyhoeddwyd gan y Cyngor, yn y safle perthnasol ac ym mhob agwedd arall, yn unol â’r Gorchymyn Cydgrynhoi.

2. Mae’r Gorchymyn Cydgrynhoi a “Gorchymyn Cydgrynhoi Sir Gaerfyrddin (Llanelli) (Cyfyngu Ar Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) (Amrywiad Rhif 38) 2020”, drwy hyn, yn cael eu dirymu i’r graddau y maent yn ymwneud a’r ochrau’r ffordd a nodwyd yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn.

Daw'r Gorchymyn i rym ar y *** dydd o *** 2026 a'i enwi fel “Gorchymyn Cydgyfnerthu Sir Gaerfyrddin (Llanelli) (Cyfyngiadau Ar Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) (Amrywiad Rhif 44) 2025”.

**ATODLEN 1**

**GWAHARDDIAD PARCIO**
**(AC EITHRIO CERBYDAU POBL ANABL)**

| **Rhan o'r Ffordd sydd wedi'i Awdurdodi i'w Defnyddio fel Man Parcio ar y Stryd** | **Man Lle Gall Cerbydau Aros** | **Nifer y Mannau Parcio** | **Diwrnodau Gweithredu'r Man Parcio** | **Oriau Gweithredu'r Man Parcio** | **Cyfnod Hwyaf y Gall Cerbydau Aros** |
|---|---|---|---|---|---|
| Y tu allan i Rhif 5 Coedlan Bryndulais, Llanelli SA14 8RS<br><br>Cyfeirnod Teilsen Map CM214 | Yn gyfan gwbl o fewn terfynau'r bae parcio sydd wedi'i farcio ar yr heol gan linell wen doredig. | Un | Bob Dydd | Bob Awr | Anghyfyngedig |
| Y tu allan i Rhif 54 Heol Felinfoel, Llanelli SA15 3JQ<br><br>Cyfeirnod Teilen Map CK214 | Yn gyfan gwbl o fewn terfynau'r bae parcio sydd wedi'i farcio ar yr heol gan linell wen doredig. | Un | Bob Dydd | Bob Awr | Anghyfyngedig |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y tu allan i Rhif 60 ac yn rhannol y tu allan i Rhif 62 Tunnel Road, Llanelli SA15 1LG<br><br>Cyfeirnod Teilsen Map CL217 | Yn gyfan gwbl o fewn terfynau'r bae parcio sydd wedi'i farcio ar yr heol gan linell wen doredig. | Un | Bob Dydd | Bob Awr | Anghyfyngedig |

## ATODLEN 2

### DIDDYMU GWAHARDDIADAU PRESENNOL AR GYFYNGIADAU AROS, LLWYTHO A DADLWYTHO

| Enw’r Heol | Cyfeirnod Teilsen Map | Disgrifiad o Hyd y Ffordd y Mae'r Dirymiad yn Gymwys Iddi |
|---|---|---|
| Tu allan i Rhif 54 Heol Felinfoel, Llanelli SA15 3JQ | CK214 | Darn, yn mesur 2 fetr, o’r cyfyngiad 'Dim Aros Ar Unrhyw Adeg' presennol. |
| Tu allan i Rhif 5 Coedlan Bryndulais, Llanelli SA14 8RS | CM214 | Darn, yn mesur 1.65 metr, o'r cyfyngiad 'Dim Llwytho/Dadlwytho a Dim Aros ar Unrhyw Adeg' presennol. |

Gosodwyd Sêl Gyffredin

**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN**

yma ar y ** diwrnod o ** 2026

ger fy mron i,

.........................................................................................

**Steven P Murphy**

**Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil**